**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**
**19-03-13**

**Presennol:** Y Cynghorydd Michael Sol Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Robert J. Wright (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd Mici Plwm (Cyngor Tref Pwllheli), W.A. Partington (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol), Andrew Picken, (Siambr Fasnach Pwllheli), David Dewsbury (Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli), Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli)

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Wil Williams (Rheolwr Harbwr Pwllheli), Llyr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Ken Fitzpatrick (Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Peter Read a'r Cynghorydd Gethin G. Williams (Sylwedydd)

<u>Cyhoeddiadau'r Cadeirydd</u>
a) Tynnodd sylw at y ffaith bod rhai o'r sefydliadau a gynrychiolir ar y pwyllgor wedi bod yn anfon dau gynrychiolydd i'r pwyllgor hwn yn y gorffennol, ond dylid nodi mai un cynrychiolydd yn unig a ganiateir
b) Y dylid annog Sefydliad y Bâd Achub i enwebu aelod i'w cynrychioli ar y pwyllgor.

<u>Ymddeoliad y Swyddog Morwrol Cynorthwyol</u>
Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig mai hwn fyddai cyfarfod harbwr olaf y Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau gan ei fod yn ymddeol diwedd mis Awst 2013. Diolchwyd am ei wasanaeth cydwybodol i'r Cyngor tros y blynyddoedd a dymunwyd ymddeoliad hapus iddo.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2012 fel rhai cywir.

## 3. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwynodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei adroddiad gyda sylw penodol yn cael ei roi i'r materion canlynol:

- Mordwyo, Angorfeydd a Carthu
- Cyllidebau'r Harbyrau
- Digwyddiadau
- Academi Hwylio
- Ystadegau Morwrol
- Staff Harbwr

**Mordwyo, Angorfeydd a Carthu**

i) Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oes llawer o newid wedi digwydd ynglyn â'r cymhorthion mordwyo. Mae'r rhai yng ngheg yr harbwr wedi eu gwella. Cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar gyda Rheolwr yr Hafan ac eraill i drafod yr

anhawsterau pryd y canfuwyd bod angen ymgymryd a peth gwaith yno. Bwriedir hefyd ailedrych ar y cymhorthion eraill sydd ymhellach allan yn y sianel

ii) O safbwynt y bwiau parth traethau, fe'i gosodir gan gontractwr yn ardal Pwllheli ac Abersoch erbyn dechrau mis Mai (ym Mhwllheli). Nododd y crewyd parth gwaharddiad cychod yn ardal Traeth Glandon

iii) Parthed cynnal a chadw'r angorfeydd, fe ailstrwythurwyd yr angorfeydd yn yr harbwr. Penodwyd contractwr i archwilio'r angorfeydd sy'n weddill am gost oddeutu £2,000.

Wrth drafod y materion hyn gyda Tŷ'r Drindod sy'n ymwneud â chymhorthion mordwyo, maent yn hollol fodlon gyda'r sefyllfa ym Mhwllheli.

Nododd nad yw Prifysgol Bangor wedi cwblhau'r adroddiad hyd yn hyn ar y bwi monitro llaid.

iv) Mewn perthynas â'r gwaith carthu, nododd y swyddog y dechreuwyd ar y gwaith o wagio'r lagŵn ac fe gadwyd y llaid ar hyn o bryd ar y tir. 'Roedd y gost o wneud y cyfan o'r gontract yn sylweddol. Ar hyn o bryd, cynhelir trafodaethau i edrych beth fyddai'n ddelfrydol ei wneud gyda'r defnydd. Byddai'n bosibl cludo'r llaid oddiyno, yn unol â'r gontract, neu ei lefelu ar hyd y tir.

Hysbysodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned, o ran gwelliannau 2013,rhoddwyd ymrwymiad i drefnu gwaith carthu yn cynnwys gwaith cynnal a chadw yn y sianel a basn y marina yn ogystal â gwaith carthu cyfalaf mewn perthynas â gwaith yr Academi Hwylio i'r gogledd o'r Hafan. Yn gynharach eleni aethpwyd allan i dendr er mwyn adnabod cwmni ar gyfer ymgymryd â'r gwaith, ac yn dilyn y broses honno fe osodwyd y gontract i Gwmni Jones Brothers. Nododd bod yna fanteision o gael contractwr yn rhan o'r trafodaethau a'r gwaith paratoi. 'Roedd y broses tendro ychydig yn wahanol oherwydd y gofynnwyd i'r cwmniau gyflwyno atebion i'r problem o waredu'r carthion. Derbyniwyd pump tendr ond nid oedd yr un cwmni yn gallu cynnig opsiwn a olygai waredu'r gwaddod oddi ar y safle. Parator cynllun ar hyn o bryd i greu "bund" ychwanegol rhwng safle'r ynys a'r lagŵn presennol a fyddai'n creu capasiti nid yn unig ar gyfer y gwaith eleni ond hefyd ar gyfer yr hir dymor. Edrychir hefyd ar wneud defnydd amrywiol o'r carthion, gan gynnwys y deunydd a ddaeth allan o'r lagŵn. Cyfeiriodd at y syniad o edrych ar dirlunio o gwmpas, ac yn cynnwys safle'r ynys, ac fe ymgymerir â'r gwaith cychwynnol ar hyn o bryd. Syniad arall yw defnyddio ychydig o'r gwaddod ar gyfer tirlunio safle'r Academi Hwylio.

O ran yr amserlen, nododd y swyddog y disgwyliwyd yn wreiddiol y gellid rhannu'r gwaith yn ddwy ran sef gwaith cynnal a chadw ar y sianel cyn yr haf a bod gwaith carthu'r Hafan a'r Academi Hwylio yn digwydd ar ôl yr haf. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau, cytunwyd i gael un contract mawr i ddechrau ar y safle ym mis Medi 2013 er sicrhau'r gwerth gorau am arian. Cydnabu bod yna faterion yn y sianel sydd angen sylw ac fe ymgymerir â'r gwaith yno cyn tymor yr haf. O ran y cynlluniau, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru bod angen asesiad ardrawiad amgylcheddol llawn, ac erbyn hyn fe gwblhawyd rhan helaeth o'r adroddiad.

**Cyllidebau'r Harbyrau**

Mewn perthynas â'r Hafan, nododd y swyddog nad oes bwriad i godi'r ffioedd yno eleni ac 'roedd hynny'n galonogol ac yn dangos ymrwymiad y Cyngor i'r cwsmeriaid.

Parthed yr harbwr allanol, fe gynyddwyd y ffioedd 1.5% oherwydd y chwyddiant yn yr harbwr. Nododd y llynedd, 'roedd y cychwyr yn archebu'r angorfeydd cyn dyddiad penodol ac y rhoddwyd disgownt iddynt. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl i'r Cyngor roddi'r disgownt eleni. Cyfeiriodd at y system talu drwy debyd uniongyrchol a sefydlwyd

a oedd yn un gymhleth iawn ac yn rhoddi pwysau ychwanegol ar yr adnoddau prin sydd gan yr Uned Forwrol i weinyddu'r harbwr. 'Roedd opsiwn hefyd i wneud un taliad ar ddechrau'r flwyddyn ac 'roedd lleihad yn y gost i'r unigolyn weithredu felly.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y cynnydd yn ffioedd yr angorfeydd a bod lleihad yn nifer y ceisiadau amdanynt, hysbysodd y swyddog bod sefyllfa'r economi'n fregus ac oherwydd hynny 'roedd lleihad cyffredinol yn y nifer o geisiadau am angorfeydd drwy Wynedd.

Nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned os oes dirywiad sylweddol yn y niferoedd, 'roedd hynny'n sicr o effeithio ar y Cyngor a Phwllheli. Dechreuwyd ar waith i ddadansoddi'r effeithiau a bwriedir cyflwyno cynigion yn ystod y flwyddyn i geisio datrys y sefyllfa. Nododd nad yw marinas eraill Gogledd Cymru'n llawn ac efallai yr effeithir mwy ar y marinas hynny sydd ar y cyrion.

Rhoddwyd manylion am nifer y cychod a adawodd angorfeydd yr harbwr rhwng 2007 a 2013 ond yn anffodus, ychydig iawn o gychod newydd sy'n dod i fewn.

Cyfeiriodd aelod at yr angen i farchnata'r harbwr. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog y gwnaed buddsoddiad sylweddol yn ddiweddar i'r cyfeiriad hwn a chyfeiriodd at y ffaith bod "Sailing Today" a hefyd "Practical Boat Owner" yn bwriadu ymweld â Phwllheli yr wythnos hon er gwneud erthygl am yr harbwr.

Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl cael diffiniad o wahanol ymwelwyr i'r harbwr. Addawodd y swyddog ystyried ymarferoldeb hyn.

**Digwyddiadau**

Hysbysodd y swyddog bod Gŵyl Wakestock yn parhau i ddatblygu a parheir i drafod â'r trefnwyr y defnydd o fasn y gogledd ar gyfer cynnal eu cystadlaethau.

Yn yr un modd, mae'r Gŵyl Fwyd yn parhau i ddatblygu.

Nododd bod Clwb Hwylio Pwllheli yn bwriadu cynnal gwahanol gystadlaethau eto eleni. Cyfeiriodd cynrychiolydd y Clwb Hwylio ar y pwyllgor, at gais a gyflwynwyd i gynnal cystadleuaeth digwyddiad byd yn 2015 gyda'r dewis rhwng Pwllheli a De Affrig. Rhoddodd fanylion am gystadlaethau cyffelyb eraill yn ystod 2016 a 2017.

Mewn perthynas â'r Gorchymyn Rheoli Cŵn, hysbysodd y swyddog bod y gorchymyn a ddeuai i rym ar 1 Ebrill 2013 yn debygol o effeithio'n bositif ar ardal Traeth Glandon. Golygai hyn na chaiff cŵn fynd ar draethau lle mae'r gorchymyn hwn yn bodoli.

Parthed gwaredu a diogelwch tân gwyllt, nododd y swyddog y talwyd bron i £3,000 am waredu fflachiau a adawyd yn yr harbyrau tros y misoedd diwethaf. Rhoddir ystyriaeth i sefydlu canolfan ym Mhorthmadog, a fyddai'n drwyddedig, i storio'r rhain.

**Academi Hwylio**

Rhoddodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ddiweddariad o gynllun yr academi.

Nododd y swyddog, o ran y gwaith carthu, gosodwyd y gontract i Gwmni Jones Brothers. O safbwynt yr adeilad, fe wahoddwyd tendrau ac fe'u haseswyd, a chwblheir y broses caffael ar hyn o bryd lle y cyflwynir adborth yn ôl i'r cwmniau a gyflwynodd dendrau. Rhoddir gwybodaeth i'r aelodau maes o law am y cwmni llwyddiannus.

O ran y datblygiadau eraill, ymgymerwyd â gwaith sylweddol yn ystod yr wythnosau diwethaf i sefydlu Cwmni Plas Heli er mwyn rheoli'r adnodd sydd i'w ddatblygu a dewiswyd Stephen Tudor yn Gadeirydd y Cwmni.

Rhoddodd Cadeirydd y Cwmni fanylion am y gwaith sydd ar y gweill i sefydlu is-bwyllgorau i ystyried gwahanol weithgareddau a.y. Dechreuwyd hefyd ar waith cymunedol.

**Staff Harbwr**

Hysbysodd y swyddog y cymerwyd camau i ailstrwythuro staff yr harbwr a'r Hafan gyda Rheolwr yr Hafan erbyn hyn yn gyfrifol am reolaeth yr Harbwr yn ogystal. Mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n effeithiol ac yn rhoddi mwy o adnoddau yn yr Hafan a'r harbwr yn ei gyfanrwydd.

Rhoddir ystyriaeth i allanoli'r llithrfa ochr yr harbwr allanol a bwriedir trafod y mater gyda Rheolwr yr Hafan yn ystod yr wythnosau nesaf.

Ail-leolwyd yr harbwrfeistr i ochr yr Hafan lle mae'r mwyafrif o'r gweithgareddau'n digwydd.

Gweithredir y rhaglen waith cynnal a chadw yn effeithiol iawn gan Reolwr yr Hafan.

Mewn perthynas ag elfen weinyddol yr harbwr, ceisir ariannu swydd rhan amser i gefnogi'r Swyddog Gweinyddol presennol.

Bwriedir hefyd hysbysebu i gael goruchwyliaeth nos.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

**4. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 22 Hydref 2013.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 7.30pm